# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 10 Mehefin 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Wyn Davies
Tesni Wyn Jones
Einir Lewis
Dafydd Ll Williams
Catherine Hughes
Philip Roberts
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – Dim ymddiheuriadau

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 14 Mai 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd Wyn Davies.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Drafnidiaeth o Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:

**Goryrru Drwy Bentref Rhydyclafdy**

Mae eich sylwadau wedi ei gyfeirio ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yng Nghaernarfon gyda chais iddynt eich ateb yn uniongyrchol. Pe byddech yn dymuno cysylltu yn unionyrchol gyda hwy dyma yw'r cyfeiriad e-bost: Trafnidiaeth/Traffic MA1348@gwynedd.llyw.cymru

**Rhwng Felin a 'Refail Boduan**

Mae cyswllt i'r digwyddiad yma gyda'r newid diweddar yn null amaethu tir cyfagos a'r rhwydwaith traciau yn y caeau adeiladwyd gyda'r system godro newydd. Bwriedir trafod y mater mewn ymgynghoriad a'r swyddogion rheolaeth datblygu gyda'r amaethwr llaeth lleol.

**Nant Gledrydd**

Mae'r gwaith o gryfhau'r ochrau wedi ei adnabod a'i gynnwys ar y rhestr waith dymunol. Detholir gwaith o'r gyllideb ar gael ar sail hierarchaeth defnydd y brifffordd a difrifoldeb cyflwr. Ymatebir i unrhyw ddiffygion athrodus drwy drefniadau'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd.

**4. Materion Ariannol**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Mai 2021 i 3 Mehefin 2021 yn gywir yn y swm o £3941.72.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200624 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200625 |

**Ysgol Botwnnog**
Derbyniwyd derbyneb gan Ysgol Botwnnog am y rhodd o £350. Gwelwyd bod y siec wedi cael ei chyflwyno i'r banc.

5. **Ffurflen Flynyddol a'r Fantolen Ariannol 2020/2021**
'Roedd yr holl gynghorwyr wedi derbyn copi o'r Ffurflen Flynyddol ynghyd ag adroddiad gan Awdit Cyngor Gwynedd yn electronig a gofynwyd os oedd yn dderbyniol. Cadarnhawyd yn gywir a derbyniwyd yn y cyfarfod hwn.
Bydd y clarc yn paratoi dogfennau i'w gyrru ymlaen i Awdit Cymru.

**6. Materion Cynllunio**
Cafwyd un cais cynllunio:

Rhif Cais: C21/0483/33/LL
Lleoliad: Plas Yng Ngheidio, Ceidio, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8YL
Bwriad: Dymchwel sied fferm bresennol a chodi sied amaethyddol newydd yn ei lle i gadw peiriannau a phorthiant – DIM GWRTHWYNEBIAD

**7. Datgan Diddordeb**
Roedd y Cynghorydd Wyn Davies yn datgan diddordeb oherwydd cysylltiad teuluol.

**8. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillator**
Derbyniwyd dau bris am osod y peiriant yn Boduan a penderfynwyd derbyn pris Bleddyn Evans oherwydd bod dau/dri o'r cynghorwyr wedi gweld esiampl o'i waith.
Un pris oedd wedi ei dderbyn i osod y peiriant yn Capel Ceidio a penderfynwyd bydd yn orfodol derbyn dau o fan leiaf.
Petai pris yn cael ei dderbyn bydd y clarc yn gadael i bawb wybod ac os yw un o'r prisiau yn dderbyniol, penderfynwyd rhoi yr hawl i'r Cadeirydd benderfynnu.

**Materion Ffyrdd**
Derbyniwyd cwyn yn y cyfarfod fel a ganlyn:

Mae goryrru drwg drwy pentref Rhydyclafdy, llawer o blant bach allan yn chwarae. Gofynwyd i'r clarc gysylltu gyda'r linc gawsom gan Trafnidiaeth Gwynedd.

**Ymddeoliad**

Mae Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor yn ymddeol yn o fuan ac oherwydd ei fod wedi bod yn hynod o dda gyda'r Cyngor Cymuned drwy'r blynyddoedd penderfynwyd gyrru cardyn diolch a phob hapusrwydd ar ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Gorffennaf 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.